
Canllaw i'r
**Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol**
Data 2020

**NNAP**
**Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol**

# Gofal eich baban

## Mesur safonau a gwella gofal newyddenedigol



*"Ganed Olive yn 29 wythnos, 3 diwrnod trwy driniaeth caesaraidd. Cymerwyd y llun wedi wedi'r driniaeth. Yr oedd hon yn garreg filltir bwysig i ni wrth i Olive ddod oddi ar y llif ocsigen o'r diwedd."*


**Ben Turner, Tad**

RCPCH Audits

RCPCH
Royal College of Paediatrics and Child Health
Leading the way in Children's Health

**"Dyma fy nghyswllt croen-i-groen cyntaf gyda 'maban gafodd ei eni wedi 27 wythnos o feichiogrwydd. Yn anffodus, doedd dim modd i Rupert fod gyda'i  Fam wedi'r geni, gan ei bod yn ddifrifol wael gyda COVID. Roedd yn foment emosiynol pan ddeliais Rupert am y tro cyntaf."**

**Adam, Tad**




# Gofal newyddenedigol

Bydd ar ryw **1 o bob 7** o fabanod angen gofal newyddenedigol am eu bod wedi eu geni'n rhy gynnar, fod eu pwysau geni yn rhy isel neu fod ganddynt gyflwr meddygol sydd angen triniaeth arbenigol.

Efallai y bydd ar faban angen monitro ei anadl neu fod angen mwy o gefnogaeth gydag anadlu. Fe all fod â heintiad a bod angen gwrthfiotigau neu fod â chyflyrau meddygol eraill.

Gall hyd arhosiad baban mewn uned newyddenedigol amrywio o rai dyddiau, i wythnosau neu fisoedd, yn dibynnu ar ei anghenion.




**Derbyniadau i unedau newyddenedigol**

Mae rhyw **1 o bob 7 o fabanod** a enir yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn (neu 90,000 O 610,000) angen gofal newyddanedig arbenigol yn yr ysbyty.

# Beth yw'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol?

**Mae'n bwysig fod safonau'r gofal a ddarperir gan unedau newyddenedigol yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) yn gwneud hyn trwy'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol (NNAP).**

Mae'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol yn helpu unedau newyddenedigol i roi gwell gofal i fabanod sydd angen triniaeth arbenigol.

Rydym yn ystyried a yw babanod yn cael gofal o ansawdd uchel yn gyson. Rydym yn asesu a yw babanod wedi cael y gwiriadau iechyd a argymhellir ar eu cyfer i leihau'r risg o gymhlethdodau, ac rydym yn gwirio cynnydd y babanod ar ôl cael y gofal hwn.

Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am ofal eich baban i helpu unedau newyddenedigol yng Nghymru a Lloegr i wella'r gofal a'r deilliannau i fabanod eraill.

Bydd staff unedau newyddenedigol yn rhoi gwybodaeth am eich baban ar system gofnodi electronig ddiogel o'r enw BadgerNet. Bydd pob uned newyddenedigol yn rhannu gwybodaeth o'r cofnodion hyn gya thîm prosiect y Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol (NNAP) yn yr RCPCH, trwy brosesydd arall, Clevermed Ltd, sy'n rheoli system BadgerNet.

I ddod i wybod mwy am yr archwiliad, y ffordd yr ydym yn defnyddio'r wybodaeth hon, a'ch hawliau, gallwch ddarllen ein hysbysiad preifatrwydd, 'Gwybodaeth eich baban', ar gael yn

**www.rcpch.ac.uk/nnap**



# Dod i wybod mwy am yr NNAP

**I ddod i wybod mwy am y modd yr ydym yn defnyddio gwybodaeth am eich baban, ewch at ein gwefan:**

**www.rcpch.ac.uk/nnap**

**neu sganiwch y cod QR gyda'ch ffôn.**



Dyma lun o'm merch fach Marilynn, a gymerwyd pan oedd hi'n ddau ddiwrnod oed. Roedd cael ei gweld yn derbyn gofal cystal yn gwneud i mi deimlo'n llai pryderus. Roeddwn yn gwybod ei bod yn y lle iawn i'w helpu i wella."

**Jade, Mam**

# Ar ba feysydd gofal y mae'r NNAP yn canolbwyntio?

**Yr oedd adroddiad yr NNAP am ddata 2020 yn edrych ar chwe maes gofal i fabanod cynamserol a sâl, oedd yn dod dan 19 mesur archwilio.**

**Cafodd y meysydd y buom yn canolbwyntio arnynt eu dewis gan grŵp o arbenigwyr mewn gofal newyddenedigol, sydd yn cynnwys nyrsus a meddygon, gyda chefnogaeth rhieni.**

**Yn y llyfryn hwn byddwn yn rhoi mwy o wybodaeth am ddeuddeg o'r mesurau, a ddewiswyd gan rieni, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a mudiadau i gleifion.**

Byddwn hefyd yn cynhyrchu poster ar gyfer pob uned yn ymdrin â'r mesurau hyn, y medrwch ei weld ar y ddolen isod: **www.nnap.rcpch.ac.uk/postergenerator.aspx**

Os hoffech wybod mwy ar ôl darllen y llyfryn hwn, gallwch weld adroddiad llawn yr **NNAP ar ddata 2020** a mwy o wybodaeth am bob ysbyty ar wefan yr NNAP, yma: **www.nnap.rcpch.ac.uk**

"Ganed Theo wedi 26 wythnos a threuliodd 5 mis mewn NNU am fod ganddo glefyd cronig difrifol ar yr ysgyfaint. Fe wnaethom oll geisio gwneud pob diwrnod yn llawn swyn iddo ac y mae'r llun hwn yn dangos y cariad a'r cwlwm arbennig rhyngddo ef a'i Dad. Gallwch hefyd weld y sticer tiwb arbennig ar siâp calon ar ei foch chwith, a wnaed iddo gan y nyrsus."

**Hayley, Mam**



# Steroidau cynenedigol

## Cwestiwn:

**A yw mam sy'n geni baban wedi rhwng 23 a 33 wythnos o feichiogrwydd gan gynnwys y ddau yn cael o leiaf un ddos o steroidau cynenedigol?**

Weithiau mae babanod sy'n cael eu geni yn gynharach na 34 wythnos yn cael anawsterau anadlu yn ystod y diwrnodau cyntaf ar ôl cael eu geni.

Gall rhoi steroidau cynenedigol i famau sydd ar fin geni babi yn gynnar helpu i leihau problemau anadlu mewn babanod, a gall hefyd wneud problemau difrifol eraill, fel gwaedu i mewn i'r ymennydd, yn llai tebygol.

**91.6%**
**(2020)**



### Steroidau cynenedigol

Cafodd **91.6%** o famau babanod a aned wedi llai na 34 wythnos o feichiogrwydd steroidau cynenedigol.

# Magnesiwm sylffad cynenedigol

## Cwestiwn:

**A yw mam sy’n geni baban wedi llai na 30 wythnos o feichiogrwydd, yn cael magnesiwm sylffad yn y 24 awr cyn esgor?**

Mae rhoi magnesiwm sylffad i fenywod sy'n rhoi genedigaeth yn gynnar yn lleihau, o ryw draean, y posibilrwydd y bydd eu baban yn datblygu parlys yr ymennydd, cyflwr gydol oes sy'n effeithio ar symud a chydsymud.

Argymhellir bod pob mam a allai roi genedigaeth cyn 30 wythnos o feichiogrwydd yn cael cynnig y driniaeth hon.




### Magnesiwm sylffad cynenedigol

**Rhoddwyd** magnesiwm sylffad cynenedigol i 85.7% o famau babanod a anwyd wedi llai na 30 wythnos o feichiogrwydd .


# Oedi cyn clampio'r llinyn

## Cwestiwn:

**A yw llinyn baban a anwyd wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd yn cael ei glampio ymhen munud neu wedyn?**

Mae tystiolaeth y gall oedi cyn clampio'r llinyn wella iechyd babanod cynamserol a gwella eu siawns o oroesi.

Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r NNAP adrodd am ba mor dda y mae gwasanaethau newyddenedigol yn gwneud hyn, ac y mae'n faes pwysig i ganolbwyntio ar wella.




### Oedi cyn clampio'r llinyn

Clampiwyd llinyn **28.9%** o fabanod a aned wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd adeg eu geni, neu funud wedyn.

# Tymheredd babanod adeg eu derbyn

## Cwestiwn:

**A yw tymheredd pob baban a gaiff ei eni yn gynharach na 32 wythnos o feichiogrwydd yn cael ei fesur, yn 36.5°C i 37.5°C, o fewn awr ar ôl iddo gael ei eni?**

Mae'n hawdd i fabanod a enir yn gynnar iawn oeri wedi eu geni. Mae bod yn oer yn gallu gwneud babanod yn fwy sâl.

Mae angen i feddygon a nyrsys yn yr uned babanod newydd-anedig wybod tymheredd baban cyn gynted ag y caiff ei eni, fel y gallant atal y babanod hyn rhag oeri.

Gall ymyriadau syml megis gosod y baban mewn bag plastig ar ôl iddo gael ei eni helpu i gynnal tymheredd normal.




### Tymheredd babanod adeg eu derbyn

Derbyniwyd **71.0%** o fabanod a aned wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd gyda thymheredd o fewn yr ystod a argymhellir o 36.5-37.5°C.

# Ymgynghori â rhieni

## Cwestiwn:

**A oes yna gofnod o uwch-aelod o'r tîm newyddenedigol yn cynnal sesiwn ymgynghori â'r rhieni, o fewn 24 awr ar ôl i'r babi gael ei dderbyn?**

Mae'n bwysig bod teuluoedd yn deall gofal eu baban a'u bod yn cael eu cynnwys yn y gofal.

Rydym yn edrych i weld a yw rhieni wedi siarad ag uwch-aelod o'r tîm newyddenedigol o fewn 24 awr ar ôl i'r baban gael ei dderbyn.

Yn yr ymgynghoriad cyntaf hwn, gall yr uwch-aelod o'r staff gyfarfod â'r rhieni a gwrando ar eu pryderon. Gall ef/hi esbonio sut mae'r tîm yn gofalu am y baban ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gan y rhieni.


### Beth allwch chi ei wneud?

Os ydych chi'n teimlo nad ydych chi wedi cael ymgynghoriad cynnar ag aelod o'r tîm newyddenedigol gallwch ofyn i nyrs eich baban drefnu un.

Yn y cyfarfod hwn, gallwch drafod sut y gallwch chi weithio mewn partneriaeth â'r tîm newyddenedigol i ofalu am eich baban.

### Ymgynghori â rhieni

Derbyniodd **95.5%** ymgynghoriad a ddogfennwyd gydag uwch-aelod o'r tîm newyddenedigol ymhen 24 awr o dderbyn eu baban.




# Rhieni ar rowndiau ward

## Cwestiwn:

**Yn achos baban a dderbyniwyd i'r uned babanod newydd-anedig am fwy na 24 awr, a oedd o leiaf un rhiant yn bresennol yn ystod rownd ward y meddyg ymgynghorol?**

Mae gofal mewn uned newyddenedigol yn rhoi cryn straen ar fabanod a rhieni. Mae'n bwysig bod teuluoedd yn deall ac yn rhan o ofal eu baban.

Gall cynnwys rhieni ar rowndiau ward y meddyg ymgynghorol, sy'n digwydd yn rheolaidd ar unedau babanod newydd-anedig, helpu i ddatblygu partneriaeth mewn cynllunio gofal rhwng y rhieni a'r tîm newyddenedigol.




### Presenoldeb rhieni ar rowndiau ward meddygon ymgynghorol

Yn achos **84.2%** o dderbyniadau, roedd y rhieni yn bresennol ar rownd ward y meddyg ymgynghorol, o leiaf unwaith yn ystod arhosiad baban.



"Dyma fi'n cael cwtsh dwbl gyda 'mabanod, yn ystod y rownd ward ddyddiol gyda'r meddygon. Byddai'r meddygon yn gwneud yn sicr eu bod yn siarad gyda mi am y ddau faban, eu cynnydd, a beth fyddai'n digwydd nesaf. Roedd hyn yn tawelu fy meddwl ac yn fy ngalluogi i ymlacio, gan wybod bod ein dau faban yn cael y gofal gorau. Pan fydden i'n rhoi cwtsh i'r ddau fel hyn, byddai'r meddygon yn aml yn bwrw golwg ar y babnod, e.e., mesur cylch eu pennau a'u lles yn gyffredinol."

**Yasmin, Mam**

# Staffio gan nyrsus newyddenedigol


## Cwestiwn:

**Pa gyfran o shifftiau nyrsio sydd â'r niferoedd cywir yn ôl y canllawiau a manylebion y gwasanaeth?**

Mae canllawiau ar gael i ddisgrifio faint o nyrsus sydd eu hangen ar bob shifft i ofalu am fabnod ar yr uned newyddenedigol, yn dibynnu ar ddwysder y gofal a ddarperir[12].

Mae tystiolaeth fod lefelau uwch o staffio gan nyrsus yn gysylltiedig â gwell deilliannau[3]. Mae'r NNAP yn edrych ar gyfran y shifftiau sy'n cael eu staffio yn ôl y canllawiau.

**78.6%**



**Staffio gan nyrsus babanod newyddenedigol**

Yn genedlaethol, mae **78.6%** o shifftiau wedi eu staffio yn ôl cyfanswm elfen nyrsus o fanyleb y gwasanaeth.


# Sgrinio am retinopatheg mewn babanod a anwyd yn gynnar.

## Cwestiwn:

**A yw baban a dderbyniwyd ac a anwyd yn pwyso llai na 1501g, neu yn gynharach na 32 wythnos o feichiogrwydd, yn cael ei sgrinio am retinopatheg mewn babanod a anwyd yn gynnar (ROP) yn unol â dehongliad yr NNAP o argymhellion y canllawiau cyfredol?**

Mae babanod a enir yn gynnar iawn neu â phwysau isel iawn ar adeg eu geni, mewn perygl o gael cyflwr o'r enw retinopatheg mewn babanod a anwyd yn gynnar (ROP). Mae ROP yn effeithio ar y pibellau gwaed yng nghefn y llygaid a gall arwain at golli golwg.

Gellir atal ROP fel arfer trwy ei drin yn gynnar. Mae sgrinio babanod am ROP ar yr adeg iawn yn bwysig i helpu babanod i gael y golwg gorau yn y dyfodol.
Mae canllaw cenedlaethol yn dweud pryd y dylid cynnal y sgrinio hwn. Rydym yn edrych ar ba mor llwyddiannus yw gwasanaethau newyddenedigol wrth sgrinio 'mewn pryd'.




### Sgrinio am retinopatheg cynamserolde (ROP)

Cynhaliwyd sgrinio am retinopatheg cynamseroldeb mewn pryd i **95.1%** o fabanod cymwys.

### Beth fedrwch chi wneud?

Gofynnwch i'r tîm newyddenedigol a yw sgrinio am ROP yn berthnasol i'ch baban, a phryd mae eich baban i fod i gael ei sgrinio.

Os yw eich baban i fod i gael sgrinio ar ôl gadael yr uned, gwnewch yn siŵr eich bod yn gallu dod i'r apwyntiad. Dewch i wybod a fydd angen i chi ddod i unrhyw apwyntiadau dilynol

# Dysplasia bronco-ysgyfeiniol (BPD)


## Cwestiwn:

**A yw baban a ddaw i mewn ac a anwyd wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd yn datblygu dysplasia bronco-ysgyfeiniol(BPD)?**

Pan gaiff babanod eu geni yn gynnar iawn, yn aml, ni fydd eu hysgyfaint wedi datblygu'n llawn ac mae llawer angen cymorth peiriant anadlu neu ddyfais arall i anadlu. Yn syml, gall cael eich geni'n gynnar achosi peth anhawster anadlu parhaus.

Gall bod ar beiriant anadlu achosi niwed i'r ysgyfaint, gwaethygu problemau anadlu yn ddiweddarach mewn bywyd a rhoi babanod mewn perygl o gael heintiau ar y frest. Dysplasia brono-ysgyfeiniol (BPD) yw'r enw ar y cyflwr hwn ac fe'i gelwir weithiau yn glefyd cronig yr ysgyfaint.

Mae cyfraddau BPD yn amrywio rhwng unedau babanod newydd-anedig. Gellir esbonio'r amrywiad hwn yn rhannol gan wahaniaethau yng nghymhlethdod a chynamseroldeb babanod rhwng unedau babanod newydd-anedig a'r dulliau y maent yn eu defnyddio. Mae unedau babanod newydd-anedig yn amcanu i leihau cyfraddau BPD.




### Dysplasia bronco-ysgyfeiniol (BPD)

Datblygodd **38.3%** o fabanod a aned wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd ddysplasia bronco-ysgyfeiniol (BPD) neu buont farw rhwng 2018 a 2020.

# Bwydo’n gynnar â llaeth y fron


## Cwestiwn:

**A yw baban a enir wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd yn derbyn unrhyw faint o laeth ei fam ei hun yn 14 diwrnod oed?**

Mae cael llaeth y fron yn helpu i atal haint a phroblemau coluddyn mewn babanod sy'n cael eu geni'n gynnar, ac yn gwella eu datblygiad a’u hiechyd yn y tymor hwy.

Efallai na fydd babanod cynamserol neu sâl yn barod i fwyd o fron eu mam yn syth, ond gall mamau dynnu llaeth ar gyfer eu baban.

Mae’n bwysig bod staff yr uned babanod newydd-anedig yn rhoi cefnogaeth ymarferol i famau dynnu llaeth o'r fron os ydynt yn dymuno gwneud hynny, ac i sefydlu bwydo ar y fron, yn barod ar gyfer mynd adref.




**Bwydo ar laeth y fron yn gynnar**

Yr oedd **82.2%** o fabanod cymwys yn derbyn llaeth y fam; naill ai yn unig neu gyda ffurf arall o fwydo, yn 14 diwrnod oed.

# Bwydo ar laeth y fron adeg mynd adref


## Cwestiwn:

**A yw baban sy'n cael ei eni cyn 32 wythnos yn cael rhywfaint o laeth ei fam ei hun pan mae'n mynd adref o'r uned babanod newydd-anedig?**



"Mae'r llun hwn yn dangos Charlie gyda'i diwb bwydo pan oedd ychydig dan fis oed. Yr oedd Charlie yn goddef y tiwb yn dda y rhan fwyaf o'r amser. Mae'r llun hwn yn bwysig i ni am ei fod yn dangos ei wên hollt hyfryd tra bod ei diwb bwydo yn ei le."

**Kim, Mam**




### Llaeth y fam ar adeg gadael yr uned

Yr oedd **60.1%** o fabanod cymwys yn derbyn llaeth y fam; naill ai yn unig neu gyda ffurf arall o fwydo, adeg gadael gofal newyddenedigol.

### Beth fedrwch chi wneud?

Holwch y staff yn eich uned sut y gallant eich cefnogi gyda bwydo o'r fron a thynnu llaeth, ac am gyngor am fudiadau eraill sy'n cynnig cefnogaeth.

"Gallwn weld ein bachgen annwyl Bobby, wrth i mi ei ddal am y tro cyntaf. Roedd yn deimlad hollol wahanol i bob dim arall, ac yn gyswllt mor gryf. Doeddwn i ddim yn gweld y gwifrau a'r tiwb na chlywed y synau o gwmpas."

**Sarah, Mam**



# Ymgynghoriad dilynol pan fydd babanod yn ddwyflwydd oed

## Cwestiwn:


**A yw baban a anwyd cyn 30 wythnos yn cael ymgynghoriad meddygol dilynol pan fydd yn ddwyflwydd oed yn ôl y cyfnod cario wedi ei gywiro?**

Mae'n bwysig bod paediatregydd neu neonatolegydd (meddyg sy'n arbenigo mewn gofalu am blant a babanod) yn gwirio datblygiad babanod sy'n cael eu geni'n gynnar iawn ar ôl iddynt adael yr uned i fabanod newydd-anedig.

Byddwn yn edrych i weld a fu ymgynghoriad dilynol wedi ei ddogfennu pan fydd babanod a aned cyn 30 wythnos yn cyrraedd dwyflwydd oed.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn edrych am unrhyw broblemau gyda symud, y synhwyrau, oedi mewn datblygiad neu broblemau iechyd eraill.

Gall babanod sy'n cael eu geni'n gynnar iawn gael y problemau hyn yn amlach na babanod sy'n cael eu geni ar ôl y cyfnod cario llawn. Mae'n bwysig bod y rhai sy'n gofalu am fabanod sy'n cael eu geni'n gynnar yn gwybod sut mae'r babanod yn datblygu wrth iddynt fynd yn hŷn.




### Ymgynghoriad dilynol pan fydd babanod yn ddwyflwydd oed

Cafodd **68.4%** o fabanod a aned wedi llai na 30 wythnos o feichiogrwydd ymgynghoriad meddygol dilynol a ddogfennwyd o fewn y cyfnod priodol.

### Beth fedrwch chi wneud?

Cadwch mewn cysylltiad â'r uned newyddenedigol a adawsoch a dod i wybod lle bydd yr apwyntiadau dilynol. Mae mynd i'r holl apwyntiadau dilynol yn golygu y cewch dawelwch meddwl am y ffordd mae eich baban yn datblygu a chael unrhyw gefnogaeth a all fod yn angenrheidiol i'w ddatblygiad.



“Cwtsho croen i groen ar yr uned. Dyma fy hoff lun o’r uned gofal dwys newyddenedigol ac y mae wedi ei chwyddo a’i fframio yn fy nghartref. Maent mor arbennig yn dangos pa mor fach oedd Archie er ei fod rai wythnosau oed. Ei wallt golau sgleiniog a’r olwg fodlon ar ei wyneb pan oedd o’n cael cyswllt croen i groen.”

**Amy, Mam**



“Archie yn 2 oed. O’r fesen, derwen a dyf.”

**Amy, Mam**

# Canlyniadau NNAP eich uned

Mae'r wybodaeth a roddir yn y llyfryn hwn yn disgrifio'r canlyniadau cenedlaethol am bob uned yng Nghymru a Lloegr.

Gallwch chwilio am bosteri NNAP eich uned (yr ydym yn eu hannog i'w harddangos ar y wal) ar y wefan isod:


**www.nnap.rcpch.ac.uk/postergenerator.aspx**

Mae enghreifftiau o'r ddau boster isod.

Mae'r posteri hyn yn dangos canlyniadau NNAP eich uned, y canlyniadau cenedlaethol, a beth mae eich uned yn ei wneud mewn ymateb i'w canlyniadau NNAP. Lle mae cyfleoedd i wella, mae unedau yn cael eu hannog i lunio cynllun gweithredu.

Gallwch weld adroddiad llawn y Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol am bob ysbyty ar NNAP Online ar:

**www.nnap.rcpch.ac.uk**






# Pwy sy'n cefnogi'r NNAP?

Yr ydym yn falch o gael cefnogaeth nifer o fudiadau. Gallwch gael mwy o fanylion isod.

Bliss yw'r elusen yn y DU sy'n gweithio i sicrhau fod gan bob baban a enir yn gynamserol neu'n sâl yn y DU y siawns gorau o oroesi a'r ansawdd bywyd gorau.

Mae Bliss yn cefnogi'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol.

Am fwy o wybodaeth am Bliss ewch at: **www.bliss.org.uk**

Nod Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain (BAPM) yw gwella safonau gofal amenedigol trwy gefnogi pawb sy'n ymwneud â gofal amenedigol i ennill y sgiliau a'r wybodaeth orau, cyflwyno a rhannu arferion diogel ac arloesol o ansawdd uchel, cynnal ymchwil a hyrwyddo anghenion babanod a'u teuluoedd.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: **www.bapm.org**

Mae Cymdeithas y Nyrsus Newyddenedigol (NNA) yn fudiad cenedlaethol sy'n cynrychioli nyrsus newyddenedigol ac yn cael ei lywio ganddynt, i hyrwyddo nyrsio newyddenedigol er lles babanod sâl sydd newydd eu geni a'u teuluoedd ledled Prydain.

Am fwy o wybodaeth am yr NNA, ewch at: **www.nna.org.uk**

# Beth fedrwch chi wneud nesaf?

- Dewch i wybod mwy am ganlyniadau NNAP yr uned newyddenedigol hon trwy fynd at erfyn adrodd NNAP Online ar: **www.nnap.rcpch.ac.uk**
- Holwch eich nyrs newyddenedigol am fwy o wybodaeth am ganlyniadau NNAP eich uned a'u cynlluniau ar gyfer gwella.
- Gallwch ddysgu mwy am yr hyn mae'r NNAP yn wneud a sut y defnyddir gwybodaeth am eich baban i gefnogi gwelliant trwy fynd at: **www.rcpch.ac.uk/nnap**
- Gofynnwch i aelod o staff yr uned newyddenedigol am gefnogaeth.



"Dyma fy ngŵr yn cyffwrdd ein merch fach am y tro cyntaf. Roedd yn teimlo wedi ymddieithrio cymaint o'r beichiogrwydd oherwydd cyfyngiadau COVID ond trodd yn Ddadi yr eiliad y gwelodd hi."

**Samantha, Mam**

## Dysgwch fwy am yr NNAP

**I ddysgu mwy am y modd yr ydym yn defnyddio'r wybodaeth am eich baban, ewch at ein gwefan:**

**www.rcpch.ac.uk/nnap**

**neu sganiwch y cod QR gyda'ch ffôn.**

# Geirfa

**Cynenedigol** – Y cyfnod cyn geni yn ystod beichiogrwydd neu'n gysylltiedig â hynny.

**Steroid cynenedigol** – Meddyginiaeth a roddir i famau a all roi genedigaeth yn gynnar a all helpu i leihau anawsterau anadlu yn eu baban a gwneud problemau difrifol eraill, megis gwaedu i'r ymennydd, yn llai tebygol.

**Dysplasia bronco-ysgyfeiniol (BPD)** - Cyflwr ar yr ysgyfaint sydd yn bennaf yn effeithio ar fabanod cynamserol, yn enwedig y rhai sydd angen bod ar beiriant awyru wedi iddynt gael eu geni. YN yr NNAP dywedwn fod gan faban BPD os oes arno angen cefnogaeth i anadlu neu ocsigen ychwanegol pan fydd yn cyrraedd oedran geni 36 wythnos wedi'i gywiro. Gelwir BPD hefyd yn glefyd cronig yr ysgyfaint (CLD).

**Meithriniad gwaed** – Os yw meddygon yn meddwl y gall baban fod â heintiad, gall staff uned newyddenedigol gymryd sampl gwaed a/neu sampl o hylif o'r asgwrn cefn, i'w anfon i'r labordy i'w brofi. Os bydd germau yn tyfu yn y sampl hwn, mae'n cael ei alw yn feithriniad gwaed positif.

**Caniwla** – Tiwb plastig bychan hyblyg sy'n cael ei osod mewn gwythïen. Mae hwn yn rhoi meddyginiaeth neu hylif i'r baban pan na all eu cymryd trwy'r geg neu sydd angen mynd yn syth i ffrwd waed eich baban.

**Colostrwm** – Y ffurf cyntaf ar laeth a gynhyrchir gan chwarennau bronnol mamaliaid (gan gynnwys bodau dynol) yn syth wedi i faban gael ei eni.

**Ymgynghoriad** – Aelod o'r staff yn cwrdd â'r rhieni i drafod cyflwr eu baban. Gallant esbonio sut y gofelir am eu baban ac ymateb i unrhyw bryderon neu gwestiynau.

**Pwysau cadarnhaol cyson ar y bibell anadlu (CPAP)** – Gweler Peiriant Anadlu

**Oedran cyfnod cario wedi ei gywiro** – Oedran baban cynamserol wedi ei gyfrif o gychwyn y beichiogrwydd. Wedi'r dyddiad roedd y geni i fod, dyma'r oedran y buasai wedi bod petai wedi ei eni ar y dyddiad cywir.

**Datblygiad** – Cynnydd baban wrth iddo dyfu o ran symud, gweld, clyw ac iaith.

**Tynnu llaeth y fron** – Defnyddio pwmp, dwylo neu'r ddau i gael llaeth o fronnau'r fam. Gellir storio'r llaeth mewn oergell neu rewgell neu ei roi yn uniongyrchol i'r baban.

**Oedran cyfnod cario** – Nifer yr wythnosau y bu'r baban yn y groth yw'r cyfnod cario Mae geni adeg y tymor yn golygu geni wedi 37 wythnos lawn yn y groth ond cyn 42 wythnos. Os genir baban cyn 37 wythnos, mae'n gynamserol.

**Crud cynnal** – Gwely Perspex tryloyw fel bocs lle mae babanod sâl neu gynamserol yn cael eu nyrsio a'u harsylwi. Mae hyn yn caniatau rheoli tymheredd yr awyr o gwmpas y baban.

**Mewnwythiennol (neu IV)** – Digwydd mewn gwythïen neu wythiennau, neu'n cael ei roi ynddi/ynt.

**Unedau newyddenedigol lleol (LNU)** – Darparu gofal newyddenedigol i boblogaeth eu dalgylch eu hunain, ac eithrio am y babanod mwyaf sâl. Maent yn darparu pob categori o ofal newyddenedigol, ond maent yn trosglwyddo babanod sydd angen gofal cymhleth neu ddwys tymor hwy i NICU.

**Pwysau geni isel (LBW)** – Mae tri chategori o bwysau geni isel)

- Pwysau geni isel (LBW) – pwysau adeg geni is na 2.5kg
- Pwysau geni isel iawn (VLBW) – pwysau adeg geni is na 1.5kg
- Pwysau geni eithriadol isel (ELBW) – pwysau adeg geni is na 1kg.

**Enterocolitis Madreiddiol (NEC)** – Cyflwr difrifol, lle mae meinwe yn y perfedd (coluddyn bach a mawr) yn troi'n llidus.. Gall NEC beri na all baban gymryd llaeth dros dro, ac ar ei waethaf gall achosi cymaint o ddifrod i rannau o'r perfedd fel bod meinwe ynddo yn marw. Gall NEC effeithio ar ran fechan o'r perfedd yn unig, neu weithiau gall effeithio ar y perfedd cyfan.

**Newyddenedigol** – Pedair wythnos gyntaf bywyd baban (hyd at 28 diwrnod).

**Newyddenedigolydd a Phediatregydd** – Meddygon arbenigol sydd wedi eu hyfforddi i ofalu am blant a babanod.

**NICU – Uned Gofal Dwys Newyddenedigol** – Lle mae babanod newyddanedig sydd angen y lefel uchaf o ofal yn derbyn gofal (gweler NNU a SCBU).

**NNU – Uned Newyddenedigol** (gweler NICU ac SCBU).

**Magnesiwm sylffad** – Sylwedd a geir yn naturiol yn y corff, ond a roddir fel meddyginiaeth i fenywod sy'n esgor yn gynamserol.

**Pediatreg** – Y gangen o feddyginiaeth sy'n ymdrin â phlant a'u hiechyd.

**Ffototherapi** – Golau uwchfioled a ddefnyddir i drin clefyd melyn, trwy osod goleuni dros y crud cynnal. Caiff y baban ei nyrsio mewn cewyn yn unig a gyda gorchudd dros ei lygaid.

**Cynamserol** – Baban a enir cyn 37 wythnos o feichiogrwydd (40 wythnos yw'r tymor llawn).

**Retinopatheg Cynamseroldeb (ROP)** – Difrod i gefn y llygad (retina), sydd fwyaf cyffredin mewn babanod cynamserol a'r rhai a enir gyda phwysau geni isel iawn. Fe'i cysylltir â swm yr ocsigen yn y gwaed. Bwrir golwg yn gyson ar y babanod hyn yn rheolaidd i weld a oes retinopatheg cynamseroldeb.

**SCBU** – Uned Gofal Arbennig Babanod (gweler NICU ac NNU). Cyfeirir ato fel uned newyddenedigol lefel 1: mae'n rhoi sefydlogrwydd i fabanod sâl neu gynamserol i drosglwyddo i'r LNU neu NICU.

**Trosglwyddo** – Pan fydd baban yn cael ei symud i ysbyty arall neu ran arall o'r ysbyty am driniaeth.

**Awyru** – Cefnogaeth fecanyddol gydag anadlu fel y gall y baban gael lefelau normal o ocsigen a charbon deuocsid yn ei waed pan na all eu cael ei hun. Mae llawer gwahanol fath o awyru.

**Rowndiau ward** – Adolygiadau rheolaidd, cynlluniedig o'r holl fabanod mewn ward neu ardal, sy'n cynnwys pawb yn y tîm sy'n gofalu am y cleifion; yn aml yn y bore.

# Cyfeiriadau

[1] NHS England. Manyleb Gwasanaeth Gofal Critigol Newyddenedigol. 2016. Ar gael oddi wrth **https://www.england.nhs.uk/commissioning/spec-services/npc-crg/group-e/e08/**

[2] Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain.  Safonau Gwasanaeth i Ysbytai sy'n Darparu Gofal Newyddenedigol (3ydd rhifyn). Ar gael yn: **https://www.bapm.org/resources/32-service-standards-for-hospitalsproviding-neonatal-care-3rd-edition-2010**

[3] Watson S., et al. Ar ran yr Uned Dadansoddi Data Newyddenedigol (NDAU) a'r Grŵp Prosiect Deilliannau Economaidd, Staffio a Chlinigol Newyddenedigol (NESCOP). Effeithiau cymhareb nyrs-i-glaf un-i-un ar y gyfradd farwolaethau mewn gofal dwys newyddenedigol: astudiaeth ôl-ddrychol, hydredol, seiliedig ar y boblogaeth. Archifau Clefydau mewn Plentyndod – Rhifyn y Ffetws a Babanod Newyddanedig. 2016;101:F195-F200.
Ar gael yn: **https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/26860480**

Canllaw i **Adroddiad Blynyddol 2020 y** Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol

HQIP
Healthcare Quality Improvement Partnership

Mae'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol wedi ei chomisiynu gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) fel rhan o'r Archwiliad Clinigol Cenedlaethol a'r Rhaglen Canlyniadau Cleifion (NCAPOP). Arweinir HQIP gan gonsortiwm o'r Academi Colegau Meddygol Brenhinol, y Coleg Nyrsio Brenhinol a National Voices.

Ei nod yw hyrwyddo gwella ansawdd yng nghanlyniadau cleifion, ac yn benodol, cynyddu'r effaith y mae archwiliad clinigol, rhaglenni adolygu canlyniadau a chofrestrfeydd yn ei chael ar ansawdd gofal iechyd yng Nghymru a Lloegr.

Gan HQIP y mae'r contract i gomisiynu, rheoli a datblygu'r Archwiliad Clinigol Cenedlaethol a Rhaglen Deilliannau'r Cleifion (NCAPOP), sy'n cynnwys tua 40 prosiect sy'n ymdrin â'r gofal a ddarperir i bobl ag ystod eang o gyflyrau meddygol, llawfeddygol ac iechyd meddwl. Cyllidir y rhaglen gan NHS England, Llywodraeth Cymru a, chyda rhai prosiectau unigol, gweinyddiaethau datganoledig eraill a dibynyddiaethau'r goron. www.hqip.org.uk/national-programmes

RCPCH
Royal College of Paediatrics and Child Health
*Leading the way in Children's Health*

**Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant**
5-11 Theobalds Road,
Llundain, WC1X 8SH

Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) ynelusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1057744) ac yn yr Alban (SC038299). ©RCPCH 2022